# Atodlen Penderfyniadau

## Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd 2023**

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y penderfyniadau canlynol ar 13 Tachwedd 2023. Byddant yn dod i rym ganol dydd ar 21 Tachwedd 2023 ac eithrio unrhyw benderfyniad penodol, sy'n destun "galw i mewn" dilys.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen cais 'Galw i Mewn' yw 4.00 pm ar 20 Tachwedd 2023.

Gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â'r broses 'Galw i Mewn' trwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

---

Nid yw adroddiadau sy'n ymwneud â materion staffio / adroddiadau cyfrinachol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor fel rhan o'r prosesau ymgynghori / galw i mewn.

**Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar 09/23**

**Addasu Cynnig Ad-drefnu Ysgolion – Adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli ac Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli**

**Opsiynau a Ystyriwyd / Rhesymau dros y Penderfyniad**

Penderfynwyd ar gynnig ad-drefnu ysgolion ym mis Mehefin 2020 i agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yng Nghasnewydd ar safle dros dro o dan fodel egin ysgol, adleoli Ysgol Gynradd Pilgwenlli i ysgol newydd a gynigiwyd ar gyfer datblygiad Whitehead, ac wedi hynny symud yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i safle parhaol ym Mhilgwenlli.

Tra agorodd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli fel y cynlluniwyd ym mis Medi 2021, roedd oedi wrth drosglwyddo'r tir yn Whiteheads yn golygu na allai gwaith adeiladu ddechrau mor fuan ag y cynlluniwyd yn wreiddiol; felly, cytunodd adroddiad penderfyniad Chwefror 2022 i newid y dyddiadau adleoli ar gyfer y ddwy ysgol i Ionawr 2024 a Medi 2024 yn y drefn honno.

Yn anffodus, roedd oedi pellach o ran y trefniadau trosglwyddo tir yn golygu na ddechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle tan fis Gorffennaf 2023, ac felly nid oes modd cyflawni'r dyddiadau

diwygiedig hyn mwyach.  Roedd y gwaith o gwblhau'r adeilad ysgol newydd bellach wedi'i drefnu i'w drosglwyddo i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2024.

**Penderfyniad**

- Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar y Penderfyniad i newid ymhellach y dyddiadau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer y cynnig ad-drefnu ysgolion hwn a chadarnhau:
- Y byddai Ysgol Gynradd Pilgwenlli yn trosglwyddo o'i safle presennol i'r adeilad newydd ar ddatblygiad Whiteheads o fis Ionawr 2025, a;

Byddai Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli yn trosglwyddo o'i safle dros dro yng Nghaerllion i leoliad parhaol ar safle ysgol bresennol Ysgol Gynradd Pilgwenlli ym mis Ebrill 2025.

**Ymgynghoriad**

Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid a Phennaeth Cyllid.

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau.   Mae unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb wedi hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad.
**Gweithredir gan:  Prif Swyddog Addysg**

---

**Amserlen Weithredu:  Ar unwaith**

Y CYNGHORYDD D DAVIES, AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

---